

# Cyngor Cymuned Bodedern



Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd  
yng Nghanolfan Bro'r Ysgol, Bodedern,  
Nos Fawrth, 29 Mai 2018  
am 7 yr hwyr.

## 1. Croeso ac ymddiheuriadau.

### Presennol:

Mr Adrian Jones-Cadeirydd **AJ**, Ms J Ferry **JF**, Mrs Bethan Hughes **BH**, Mrs Linda Jones **LJ**, Dr Edward Jones **EJ**, Mr Victor Owen **VO**, Mr OG Roberts **OGR**, Miss Jane Ann Roberts **JAR**, Mrs EAB Thomas **EABT**, Cynghorwr Ken Hughes **KH**, Ms RW Owen **clerc**.

## 2. Datgan Diddordeb: **KH** ynglyn ac eitem 6.

## 3. Ethol Cadeirydd ac is-gadeirydd ar gyfer y flwyddyn 2018/19

Ethlwyd Mr Robert Adrian Jones fel cadeirydd, a Miss Jane Ann Roberts yn is-gadeirydd.

## 4. Cofnodion Ebrill 2018 ac unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion.

**4.1** Nodwyd fod CSYM wedi cadarnhau i'r clerc nad yw'n bosib cael bin arall i'r fynwent, 1 bin yw'r rheol. Gallai'r cyngor cymuned gael bin gan gwmni preifat, a nododd **JF** ei bod yn talu oddeutu £11 + TAW bob pythefnos yn ei busnes i gael bin gan gwmni preifat. Cytunwyd i fonitro'r bin am y tri mis nesaf, gydag llyniau yn cael eu tynnu fel tystiolaeth os oes angen a gwneud penderfyniad ar ddiwedd y tri mis. Y mater i'w adolygu ym mis Medi.

**4.2** Nododd y clerc fod y Sign Factory yn barod i osod yr hysbysfwrdd, ond gan nad oedd CSYM wedi clirio'r llecyn byddai yn trefnu i wneud y gwaith yn breifat er mwyn galluogi'r arwydd cael ei osod. Y clerc i barhau gyda ymholiadau i CSYM er mwyn tacluso'r safle yn y tymor hir.

**4.3** Nododd y clerc ei bod wedi casglu'r wybodaeth mewn holidauron ynglyn a'r problemau broadband mewn sesiwn agored yn y ganolfan cyn y cyfarfod, ac byddai'n gyrru'r wybodaeth ymlaen i Rhun ap Iorwerth.

**4.4** Nododd y clerc ei bod wedi cysylltu a'r Ysgol Uwchradd i fynegi cefnogaeth i'r cais i gael diffibriliwr yn y gymuned, a nododd **KH** y byddai'n gyfle da i gael plant yr Ysgol i ddarparu cystadleuaeth ayyb i godi arian. Nododd hefyd fod y cyngorydd Richard Jones yn barod iawn i gynorthwyo ac i ddangos sut y byddai'n gweithio.

# Cyngor Cymuned Bodedern



## 5. Maes Chwarae / Ffrindiau Bodedern

Nododd EABT ei bod yn hyfryd clywed llais y plant yn chwarae, ac fod cymaint o'r plant lleol yn cael defnydd a phleser o'r parc. Dim materion i'w adrodd.

## 6. Materion Cynllunio.

**6.1** Cais 13C85B/LB Caniatad Adeilad Rhestredig ar gyfer atgyweirio. Altro, dymchwel ac ehangu yn Bodloigan, Llanfachraeth.

Credwyd nad oedd y cais yma yn berthasol i'r cyngor cymuned gan i'r ty fod wedi ei leoli thu allan i'r plwyf, ond nodwyd y cais, dim gwrthwynebiad.

**6.2** Cais 13C199 Cais llawn ar gyfer ehangu yn Bryn Aeddfed, Bodedern. Dim gwrthwynebiad.

**6.3** Cais 13C195D/ENF Cais ol-weithredol ar gyfer altro ac ehangu'r sied anifeiliad bresennol, lleoli seilo a thanciau eraill cysylltiedig, creu llecynnau bwydo allanol a thanc o dan y ddaear ar gyfer dwr budur yn Gate Farm, Trefor.

Yn gyntaf, nodwyd siom am i hwn fod yn gais ol-weithredol, ac am fod llawer o'r gwaith wedi ei gwblhau heb ystyried pryderon y gymuned leol. Er hyn, nodwyd fod rhaid edrych ar y cais fel cais newydd yn ol y gyfraith.

Mynegwyd pryderon ynglyn a'r effaith ar y ffyrdd, gan nad ydynt wedi eu adeiladau ar gyfer maint y trafndiaeth a fyddai'n cael eu greu gyda datblygiad fel hwn, gyda effaith negyddol iawn ar allu y gymdeithas i ddefnyddio'r ffyrdd yn ddiogel. Cytunwyd i wrthwynebu ar y sail yma.

Mynegwyd bryder am addasrwydd y tir. Mae'r math hwn o ddatblygiad yn gyffredin mewn mannau fel Seland Newydd, lle mae'r ddaear yn llawer sychach ac yn fwy addas i'r niferoedd o anifeiliaid ar y tir. Byddai niwed sylweddol yn cael ei achosi i les yr anifeiliaid ar dir gwlyb yn y math hwn o ddatblygiad yn y lleoliad hwn. Cytunwyd i wrthwynebu ar y sail yma.

Nodwyd hefyd yr effaith negyddol fyddai maint y datblygiad yn gael ar amwynderau pobol lleol. Heb os byddai cynnydd sylweddol mewn arogl yn deillio o'r safle, llawer mwy na ellir ei ddisgwyl gan bobl sy'n byw yng nghefn gwlad. Byddai lefelau slyri a grewyd yn sicr yn cael effaith negyddol iawn ar y gymuned leol. Cytunwyd i wrthwynebu ar y sail yma.

# Cyngor Cymuned Bodedern



## 7. Gohebiaeth.

Anfonwyd ebost ymlaen ynglyn ac ymgynghoriad hawliau tramwy gan CSYM. Nodwyd fod copi papur ar gael wrth wneud cais i CSYM.

## 8. Taliadau i'w gwneud.

The Sign Factory	15054	Rhif Siec 200044	£308.40
Mon GC	MGC2621	Rhif Siec 200045	£360.00
BHIB Ysiwriant	149776	Rhif Siec 200046	£561.11

## 9. Unrhyw Fater Arall.

9.1 Mae parcio'n anodd iawn ar Lon Llundain, ond yn gwaethygu'r broblem mae presenoldeb trelar, biniau a phaledi ar y ffordd yn rhwystro'r pafin. Credir mai cynhyrchion busnes sy'n cael ei redeg o un o'r tai gerllaw oedd hyn, ac yn achosi anawsterau i gerddwyr a gyrwyr. Cytunwyd i gysylltu â CSYM i weld pe byddai modd cymryd unrhyw gamau gorfodi.

9.2 Mae glaswellt ar y llwybr o'r tai pensïynwyr ogwmpas at gefn Capel Tabernacl wedi gor dyfu. Y clerc i gysylltu a CSYM.

9.3 Glaswellt wedi gor dyfu yng nghyffordd Llanyghenedl. Nododd **KH** ei fod wedi sylwi ar y broblem ac yn bwraidu tynnu llun a'i yrru ymlaen i CSYM.

## 10. Dyddiad cyfrafol nesaf.

Cadarnhawyd cynhelir y cyfarfod nesaf 25 Mehefin 2018.

Cau 19:50